Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Mewnfudwyr anghyfreithlon

26 Tachwedd 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

*Rwy'n ysgrifennu i ofyn am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Er mwyn ein cynorthwyo â'r cais hwn, rwy'n amlinellu fy ymholiad mor benodol â phosibl. Hoffwn wybod faint o'r contractwyr /gweithwyr / cyflogeion y darganfuwyd eu bod yn fewnfudwyr anghyfreithlon ers 1 Ionawr 2010. Yn fwy penodol:*

1. *Ers 1 Ionawr, 2010, faint o'ch contractwyr /gweithwyr / cyflogeion ac ati y darganfuwyd eu bod yn fewnfudwyr anghyfreithlon ers 1 Ionawr 2010?*
2. *A fyddech cystal â rhestru'r holl gontractwyr /gweithwyr / cyflogeion y darganfuwyd eu bod yn fewnfudwyr anghyfreithlon, gan nodi:*
    a. *Teitl eu swydd neu eu rôl*
    b. *Yr adrannau roeddent yn gweithio ynddynt a lleoliad/cyfeiriad yr adran*
    c. *Eu cenedligrwydd*
3. *Y flwyddyn (e.e. 2010, 2011, 2012, neu 2013) y darganfuwyd eu statws fel mewnfudwyr anghyfreithlon*

Gallaf gadarnhau nad ydym wedi darganfod unrhyw fewnfudwyr anghyfreithlon drwy'n proses fetio ers 1 Ionawr 2010.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF